

Gofynnwch am:

Llinell Uniongyrchol:

E-bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

5 Ebrill 2022

Annwyl Riant / Gwarcheidiad

Rwyf am roi diweddariad byr ichi wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Gwanwyn a dechrau tymor olaf y flwyddyn academaidd hon.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch ichi am eich cefnogaeth barhaus. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn hynod heriol i chi, eich plant, athrawon a'r holl staff sy'n gysylltiedig â'n hysgolion. Mae eich cymorth wedi bod yn allweddol i sicrhau bod gwasanaethau addysg wedi bod yno i'n pobl ifanc yn ystod y pandemig ac yn awr, wrth inni symud ymlaen oddi wrtho.

Mae'r hanner tymor diwethaf unwaith eto wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ein hysgolion sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod dysgu wyneb yn wyneb yn parhau cyn belled â phosibl, er gwaethaf prinder staff ar draws llawer o'n hysgolion. Fel swyddogion, gwelwn yn ddyddiol yr ymdrech sy'n mynd i mewn gan benaethiaid a'u staff i gadw ein dysgwyr ar y safle a diolchaf iddynt am bopeth y maent yn parhau i'w wneud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y dylai dysgwyr oedran uwchradd/staff barhau i wisgo gorchudd wyneb o leiaf wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol ein hysgolion. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ar ôl y Pasg. Mae'r fframwaith penderfyniadau lleol ar reoli heintiau COVID-19 ar gyfer ysgolion yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu dysgu mewn ysgolion ac yn ein galluogi i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol. Mae'n bleser gennyf gadarnhau, wrth i ddisgyblion ddychwelyd ar ôl y Pasg, y byddwn yn symud i weithredu ar lefel rhybudd ISEL. Yn ymarferol, byddai hyn yn gosod ysgolion mewn sefyllfa debyg i'r cyhoedd.

Mae'n bwysig inni barhau i olchi ein dwylo'n rheolaidd a chael y brechlyn pan gaiff ei gynnig. Cofiwch, os oes gan eich plentyn unrhyw un o'r tri symptom allweddol, peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol, dylai hunan-ynysu a sefyll prawf llif ochrol (LFT).

Gallwch archebu LFTs ar-lein <https://www.gov.uk/order-coronavirus-rapid-lateral-flow-tests> neu ffoniwch 119 rhwng 7am ac 11pm (mae galwadau am ddim). Dylent barhau i hunan-ynysu nes iddynt gael canlyniad eu prawf LFT.

Fel bob amser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag athro eich plentyn neu bennaeth yr ysgol am gyngor a chymorth pellach.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus i'n hysgolion.

Cofion



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg